

Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg

Vaughan Gething AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

13 Chwefror 2019

Annwyl Weinidogion

Cadernid Meddwl: gwaith dilynol


Fel y gwyddoch, mae bron i flwyddyn wedi mynd heibio ers cyhoeddi adroddiad Cadernid Meddwl y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Fel gyda'n holl waith, rydym wedi ymrwmo i fynd ar drywydd cynnydd mewn perthynas â'n hargymhellion.

Ym mis Awst 2018, ysgrifennais ar ran y Pwyllgor i ofyn am ymateb ysgrifenedig diwygiedig i Cadernid Meddwl. Gofynnwyd am hyn erbyn mis Mawrth 2019 a chododd yn dilyn consensws trawsbleidiol yn y Siambr nad oedd yr ymateb gwreiddiol yn bodloni'r uchelgais a amlinellir yn ein hadroddiad. Fe wnaethoch gytuno i'r cais hwn yn eich llythyr dyddiedig 7 Medi 2018 ac amlinellwyd y gwaith a oedd ar y gweill gennych i sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y cyd.

Er mwyn llywio ein gwaith dilynol, ac i wneud ein gwaith craffu mor dryloyw â phosibl, byddem yn ddiolchgar pe byddai eich ymateb yn mynd i'r afael â phob un o'n hargymhellion gwreiddiol yn unigol. O ystyried pa mor berthnasol yw gwaith y Rhaglen Law yn Llaw ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (T4CYP) a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y cyd, byddem hefyd yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith. Rydym yn hapus i gael y wybodaeth hon naill ai fel rhan o'ch ymateb neu fel papurau ar wahân. Rwyf wedi anfon copi at Gadeirydd T4CYP i'w gwneud yn ymwybodol.

Byddwn yn neilltuo amser cyn toriad yr haf i'ch gwahodd eich dau i fod yn bresennol mewn Pwyllgor i drafod y cynnydd a'r camau nesaf. Bydd Clerc y Pwyllgor yn cysylltu â'ch swyddogion i gytuno ar ddyddiad cyfleus i bawb.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC

Cadeirydd

c.c. Carol Shillabeer, Cadeirydd, Rhaglen Law yn Llaw ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (T4CYP)

